# CYNGOR SIR

Dydd Mercher, 16 Mai 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, S.M. Allen, L.R. Bowen, K.V. Broom, C.A. Campbell, J.M. Charles, D.M. Cundy, S.A. Curry, C.A. Davies, T.A.J. Davies, G. Davies, H.L. Davies, I.W. Davies, J.A. Davies, S.L. Davies, W.R.A. Davies, E. Dole, J.S. Edmunds, P.M. Edwards, H.A.L. Evans, L.D. Evans, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, S.J.G. Gilasbey, C.J. Harris, P. Hughes-Griffiths, J.K. Howell, P.M. Hughes, A. James, J.D. James, R. James, D.M. Jenkins, J.P. Jenkins, G.H. John, C. Jones, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, T.J. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, S. Matthews, A.S.J. McPherson, E. Morgan, D. Nicholas, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, D. Price, J.G. Prosser, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone, H.B. Shepardson, B. Thomas, D. Thomas, E.G. Thomas, G.B. Thomas, G. Thomas, J. Tremlett, A.Vaughan Owen, D.T. Williams, D.E. Williams a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 11.00 am - 12.00 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies, D.C. Evans, D. Harries, T. Higgins, A. James, A.G. Morgan (sesiwn y bore), A. Speake, L.M. Stephens a G.B. Thomas (sesiwn y prynhawn).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

Croesawodd y Cynghorydd Irfon Jones sef y Cadeirydd a oedd yn Ymddeol, westeion nodedig, Cynghorwyr, staff a ffrindiau i'r cyfarfod.
Bu'r Cynghorydd Jones yn edrych yn ôl ar ei flwyddyn yn y swydd a diolchodd i'r Prif Weithredwr am ei gyngor a'i arweiniad proffesiynol, ac i'r Cyfarwyddwyr a staff yr Awdurdod a oedd wedi cefnogi gwaith y Cadeirydd, gan gynnwys yr Uned Gwasanaethau Democrataidd, ei yrrwr Jeff Jones ac yn benodol Eira Evans am ei chefnogaeth broffesiynol a phersonol, am drefnu ei ddigwyddiadau, ac am sicrhau bod popeth yn mynd yn hwylus bob amser.

Diolchodd i'w Is-gadeirydd, y Cynghorydd Mansel Charles, a'i Gydymaith Mrs. Bethan Charles-Davies, am eu cefnogaeth a'u cwmni yn ystod ei gyfnod yn y swydd a dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Charles ar ei flwyddyn yn y swydd. Diolchodd hefyd i'w gaplan y Parchedig Ganon Aled Williams am ei gefnogaeth ysbrydol a'i arweiniad trwy gydol y flwyddyn.
Mynegodd y Cynghorydd Jones ei ddiolch diffuant am yr holl gefnogaeth yr oedd ef a'i gydymaith wedi'i gael drwy gydol yr hyn a ystyriai ef yn bersonol yn flwyddyn lwyddiannus iawn. Roedd wedi teithio ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin yn cyfarfod â phobl oedd yn dathlu eu pen-blwydd yn gant oed, pobl ifanc, enillwyr gwobrau, cerddorion, artistiaid ac aelodau o'r teulu brenhinol.
Yn olaf, talodd deyrnged i'w wraig a'i gydymaith Jean, a oedd wedi bod wrth ei ochr ac yn ei dywys yn ystod y 12 mis diwethaf a diolchodd iddi yn ffurfiol am ei chariad a'i chymorth parhaus. Dywedodd y bu'n anrhydedd ac yn fraint i wasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor a diolchodd i bawb am roi'r cyfle iddo.

**4. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19**

**Cynigiwyd gan y Cynghorydd H.I. Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd C. Campbell a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd M.Charles yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2018/19.**

Gwnaeth y Cynghorydd M. Charles ei ddatganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol gan y Cadeirydd oedd yn ymddeol.

Diolchodd y Cynghorydd M. Charles i'r holl Gynghorwyr am eu cefnogaeth yn ei benodi yn Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin. Dywedodd ei fod yn gobeithio efelychu'r safon uchel o ran Cadeiryddiaeth a ddarparwyd gan ei ragflaenwyr. Rhoddodd y Cynghorydd Charles deyrnged i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol, y Cynghorydd H.I. Jones, a chyflwynodd iddo ddarlun ac albwm o ffotograffau i nodi rhai o'r prif ddigwyddiadau yn ystod ei flwyddyn yn y swydd, ynghyd â Chrogdlws i nodi ei fod yn Gyn-gadeirydd.

Yna cyflwynodd Jean Jones, Cydymaith y Cadeirydd oedd yn ymddeol Gadwyn Swyddogol i Mrs Bethan Charles-Davies, a chyflwynodd Mrs Bethan Charles Davies Grogdlws Cydymaith y Cyn-gadeirydd i Mrs Jean Jones.

**TEYRNGEDAU**

Bu arweinwyr y Grŵp Annibynnol, Grŵp Plaid Cymru a'r Grŵp Llafur yn talu teyrnged i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol am ei wasanaeth ardderchog i'r Cyngor. Cyfeiriwyd yn benodol at y modd rhagorol yr oedd y Cynghorydd Jones wedi cadeirio cyfarfodydd y Cyngor. Yn ogystal talodd y Prif Weithredwr deyrnged ar ran staff yr Awdurdod i'r Cadeirydd oedd yn Ymddeol, a oedd wedi cyflawni'r rôl mewn modd proffesiynol dros ben gan fod yn hynod o gefnogol i waith y Cyngor.

5. **ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19**

**Cynigiwyd gan y Cynghorydd R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd J.Tremlett a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd K. Madge yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2018/19.**

Gwnaeth y Cynghorydd K. Madge ei ddatganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol.

Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Is-gadeirydd a'i Gydymaith ar eu penodiad.

Cyflwynwyd Cadwyn y Swydd i gydymaith y Cadeirydd, Mrs Catrin Madge, gan Gydymaith y Cadeirydd Mrs Bethan Charles-Davies.

6. **GOHIRIAD**

**Cynigiodd y Cadeirydd, eiliwyd hynny gan yr Is-gadeirydd, a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid gohirio gweddill y materion ar yr agenda tan 1.30pm yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.**

7. **Y CYFARFOD YN AILYMGYNNULL**

Roedd y Cyngor wedi ailymgynnull yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 1.30 p.m.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, S.M. Allen, L.R. Bowen, K.V. Broom, C.A. Campbell, J.M. Charles, D.M. Cundy, S.A. Curry, C.A. Davies, T.A.J. Davies, G. Davies, H.L. Davies, I.W. Davies, J.A. Davies, S.L. Davies, W.R.A. Davies, E. Dole, J.S. Edmunds, P.M. Edwards, H.A.L. Evans, L.D. Evans, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, S.J.G. Gilasbey, C.J. Harris, P. Hughes-Griffiths, J.K. Howell, P.M. Hughes, A. James, J.D. James, R. James, D.M. Jenkins, J.P. Jenkins, G.H. John, C. Jones, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, T.J. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, S. Matthews, A.S.J. McPherson, E. Morgan, D. Nicholas, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, D. Price, J.G. Prosser, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone, H.B. Shepardson, B. Thomas, D. Thomas, E.G. Thomas, G.B. Thomas, G. Thomas, J. Tremlett, A.Vaughan Owen, D.T. Williams, D.E. Williams a J.E. Williams.

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau DemocrataiddSwyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 11.00 am - 12.00 pm**

**8. YMDDIHEURIADAU**

Cafodd ymddiheuriad arall am absenoldeb gan y Cynghorydd S.L. Davies.

**9. DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR**

Cyflwynodd yr Arweinydd ei Adroddiad Blynyddol 2017-2018, a rhoddwyd copïau ohono yn ystod y cyfarfod, a oedd yn edrych yn ôl ar lwyddiannau'r Cyngor dros y 12 mis diwethaf.

Hwn oedd y trydydd Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd ond yr adroddiad cyntaf ers etholiadau 2017 lle gwelwyd newid sylweddol yn y cydbwysedd grym o fewn y Cyngor. Bu'n edrych yn ôl ar y cyfnod hwn y llynedd pan groesawodd 29 o wynebau newydd i feinciau siambr y cyngor, sy'n cynrychioli dros draean o gyfanswm nifer y cynghorwyr. Er y bu cryn dipyn o sesiynau hyfforddi a seminarau sefydlu yn ystod y flwyddyn, y gobaith oedd bod gan yr aelodau newydd well dealltwriaeth o dipyn o ran sut y mae llywodraeth leol yn gweithio, a'u bod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau hollbwysig dros y pedair blynedd sy'n weddill o'r Cyngor hwn. Dywedodd ei fod yn gobeithio y bydd oes y Cyngor hwn yn para mwy o lawer na'r pedair blynedd sy'n weddill o'r tymor presennol.

Gan gyfeirio at y thema o gyni ariannol dywedodd fod arbedion ariannol wedi ceisio cael eu sicrhau ym mhob agwedd ar waith y Cyngor, a'i fod yn llawn edmygedd o staff y Cyngor am feddwl am lu o syniadau blaengar i arbed arian. Fodd bynnag, roedd y gwasanaethau wedi cael eu naddu i'r asgwrn a bellach roedd bron yn amhosibl dal ati i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Y gobaith oedd y byddai ymddeoliad y Prif Weinidog oedd ar y gorwel, yn arwain at newid mewn pwyslais a byddai Llywodraeth Leol yn cael ei amddiffyn rhag toriadau pellach. Serch hynny, er iddo fod yn gyfnod anodd, roedd llawer wedi digwydd yn Sir Gaerfyrddin dros y 12 mis diwethaf ac roedd yn bosibl teimlo'n gadarnhaol iawn am y dyfodol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at amcanion Rhaglen TIC i feddwl ac ymddwyn yn wahanol a thrwy hynny hefyd weithredu'n wahanol. Hyd yn hyn roedd wedi helpu i nodi a chyflawni tua £12 miliwn o arbedion ariannol gwirioneddol ac arbed costau. Roedd llawer o welliannau yn digwydd ar draws yr Awdurdod ochr yn ochr â Rhaglen TIC, a llynedd gydag awydd i gydnabod a gwobrwyo hynny, lansiwyd seremoni wobrwyo TIC ym mis Gorffennaf. Rhoddwyd pump o brosiectau ysbrydoledig ar y rhestr fer, a'r enillydd cyffredinol oedd aelodau'r Tîm Dewisiadau Tai am y modd y bu iddynt wella eu systemau o ran rhoi ystod eang o gyngor i bobl y mae arnynt angen tai. Roedd TIC hefyd wedi cefnogi menter gorfforaethol allweddol o ran trawsnewid digidol sy'n cwmpasu rhaglenni 'newid sianel' er mwyn ehangu'r modd y gallai trigolion ryngweithio gyda gwasanaethau drwy greu cyfrif a rheoli'r gwasanaethau ar-lein. Lansiwyd menter allweddol o ran gweithio hyblyg hefyd a fyddai'n gwneud gwell defnydd o dechnoleg a swyddfeydd yr awdurdod gan roi mwy o hyblygrwydd i staff wrth weithio a darparu gwasanaethau. Er mwyn helpu ysgolion i wneud arbedion i ddiogelu cyrhaeddiad ac addysg disgyblion crëwyd swydd TIC penodol ar gyfer ysgolion a rhoddwyd rhaglen ar waith i nodi'r arbedion posibl y gallai, ac yr oedd ysgolion eu gwneud. Roedd TIC wedi

ymgynghori â'r holl staff ac aelodau etholedig i nodi'r hyn oedd yn gwastraffu amser a nodwyd 17 maes gwelliant a oedd ar waith ar hyn o bryd.

Atgoffodd yr Arweinydd y Cyngor yr adeg hon y llynedd roedd y Prif Weinidog wedi llofnodi Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd werth £1.3bn. Byddai'r Fargen, diolch i gyfuniad o gyllid gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn rhoi hwb ariannol o £1.8bn i economi'r rhanbarth ac yn creu hyd at 10,000 o swyddi o safon dros y 15 mlynedd nesaf. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae llawer iawn o gynnydd wedi ei wneud y tu ôl i'r llenni. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant gwerth £200m ar gyfer Llynnoedd Delta yn Llanelli, a datblygiad clwstwr digidol creadigol 'Yr Egin' ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn benderfynol o sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd a fydd yn cael eu creu drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Roedd y Bwrdd Gweithredol, yn ei Gynllun 5 Mlynedd wedi amlinellu bron i 100 o brosiectau, cynlluniau neu wasanaethau blaenoriaeth gyda'r bwriad o'u cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Roedd y Cynllun, a gafodd ei lansio ym mis Ionawr, yn nodi'r prif feysydd buddsoddi a gwella a fyddai'n cael eu gyrru yn ystod gweddill tymor y Cyngor hwn, yn ogystal â gweithredu gwasanaethau'r Cyngor o ddydd i ddydd. Roedd yn cynnwys – o ran yr amgylchedd - cynlluniau i wneud Sir Gaerfyrddin yn brif gyrchfan beicio Cymru, gwella'r seilwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, lleihau ôl troed carbon y cyngor, cefnogi mentrau ffermio cynaliadwy a gwella cyfraddau ailgylchu'r sir. O ran addysg, roedd cynlluniau i ddarparu buddsoddiad pellach o £129 miliwn yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg, gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau ysgolion i gefnogi gweithgareddau cymunedol, ymgysylltu â rhagor o bobl ifanc a symud ysgolion ar hyd continwwm y Gymraeg. Ym maes gofal cymdeithasol a thai, roedd y Bwrdd yn bwriadu datblygu strategaeth ddigartrefedd, gwireddu ei ymrwymiad i ddatblygu 1,000 o dai fforddiadwy gan roi pwyslais ar sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto ac adeiladu tai newydd, cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, darparu rhagor o gymorth i ofalwyr a lleihau unigrwydd ymhlith pobl agored i niwed a phobl hŷn. Roedd y buddsoddiad a gynlluniwyd yn narpariaeth hamdden y sir yn cynnwys datblygu cyfleusterau newydd a phresennol, gan gynnwys canolfannau hamdden, Harbwr Porth Tywyn a Pharc Gwledig Pen-bre. Roedd adfywio Sir Gaerfyrddin yn nodwedd allweddol. Roedd y strategaethau trawsnewid yn canolbwyntio ar wella canol trefi Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin, llain arfordirol y sir, ardaloedd twf allweddol fel Cross Hands ac yn bwysig iawn, adfywio ardaloedd gwledig. Er bod llywodraeth leol yn wynebu cyfnod ansicr oherwydd toriadau llym mewn gwariant cyhoeddus, roedd y cyngor yn parhau i ddarparu cannoedd o wasanaethau o ddydd i ddydd i drigolion Sir Gaerfyrddin ac ymwelwyr â'r sir.

Roedd y Bwrdd Gweithredol wedi nodi nifer o brosiectau a rhaglenni allweddol y byddai'n ymdrechu i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf. Drwy gyflwyno'r prosiectau a'r rhaglenni hyn roedd y Bwrdd o'r farn y gallai gyfrannu at sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw'r lle gorau i fyw a gweithio ac ymweld â hi. Bwriad y cynllun uchelgeisiol oedd mynd ati'n gyson i wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y sir er mwyn sicrhau bod trigolion, cymunedau, sefydliadau a busnesau yn cael eu cefnogi a'u galluogi i ddatblygu a ffynnu er budd ein sir. Byddai adroddiadau ac argymhellion manwl ynghylch prosiectau a rhaglenni penodol yn cael eu cyflwyno drwy brosesau democrataidd y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn ffodus o gael grŵp hynod

o alluog a thalentog yn rhan o'r Bwrdd Gweithredol sydd wedi dod a'u cryfderau unigol at y Bwrdd, ond roeddent ar eu gorau wrth weithio ar y cyd. Talodd deyrnged i staff yr Awdurdod dan arweiniad y Prif Weithredwr, Mark James CBE. Yn ei sylwadau wrth gloi, talodd deyrnged i waith caled ac ymdrech y miloedd o bobl sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod. Roedd wedi gwneud ymdrech i gwrdd â chynifer o aelodau o staff â phosibl dros y 12 mis diwethaf ac roedd wedi ei syfrdanu gan eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad pur i wneud Sir Gaerfyrddin y sir gorau yng Nghymru a diolchodd i bob un ohonynt.

Diolchodd Arweinydd y Grŵp Llafur i Arweinydd y Cyngor am ei adroddiad. Mynegodd ei longyfarchiadau i'r Cyngor ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni a chyfeiriodd at gyfraniad y weinyddiaeth flaenorol tuag at y llwyddiannau hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Jane Tremlett a oedd yn siarad ar ran y Grŵp Annibynnol fod adroddiad yr Arweinydd yn dwyn ynghyd yr holl waith rhagorol sy'n cael ei gyflawni gan yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad yr Arweinydd fel y cafodd ei gylchredeg yn ystod y cyfarfod.**

**10. CADARNHAU PENODI AELODAU I BWYLLGORAU'R CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19**

Bu'r Cyngor yn ystyried aelodaeth bresennol y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill, ac aelodau presennol y pwyllgorau hynny. Cadarnhaodd Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol nad oedd unrhyw newidiadau yn yr aelodaeth ychwanegol.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a
**PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo aelodaeth ac aelodau'r Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2018/19, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.**

**11. YSTYRIED YR ENWEBIADAU A DDAETH I LAW AR GYFER PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU / PANELAU Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol RhGG 17.6, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r enwebiadau oedd wedi dod i law ar gyfer penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau am Flwyddyn y Cyngor 2018/19.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

**PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac yn Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2018/19:-**

| PWYLLGOR/PANEL | Y CADEIRYDD | YR IS-GADEIRYDD |
| --- | --- | --- |
| Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau | Y Cynghorydd S.L. Davies | Y Cynghorydd G.B. Thomas |
| Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant | Y Cynghorydd D. Price | Y Cynghorydd E.G.Thomas |
| Y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd | Y Cynghorydd J.D. James | Y Cynghorydd A. Davies |
| Y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau | Y Cynghorydd A.G. Morgan | Y Cynghorydd J.K. Howell |
| Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Y Cynghorydd G.Thomas | Y Cynghorydd I.W. Davies |
| Pwyllgor Apêl | Y Cynghorydd J.K. Howell | Y Cynghorydd S.M. Allen |
| Pwyllgor Penodi "A" – Cyfarwyddwyr | Y Cynghorydd E. Dole | Y Cynghorydd L.M. Stephens |
| Pwyllgor Penodi "B" ar – Penaethiaid Gwasanaeth | Y Cynghorydd L.M. Stephens | Y Cynghorydd E. Dole |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | Y Cynghorydd S. Curry | Y Cynghorydd W.T. Evans |
| Y Pwyllgor Cynllunio | Y Cynghorydd A Lenny | Y Cynghorydd H.I. Jones |
| Y Pwyllgor Trwyddedu | Y Cynghorydd E.G.Thomas | Y Cynghorydd D.E.Williams |
| Y Pwyllgor Penodi Aelodau | Y Cynghorydd A.D.T. Speake | Y Cynghorydd W.R.A. Davies |
| Y Panel Adolygu Tai | Y Cynghorydd G.B. Thomas | Y Cynghorydd I.W. Davies |
| Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed | Y Cynghorydd D.E.Williams | Diangen |

**12. CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn cynghori, yn gyfansoddiadol, fod ganddo dros fabwysiadu Cynllun Lwfansau'r Cynghorwyr ond bellach y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd yn dynodi'r cyfansymiau i'w talu gyda'r nod o ddarparu fframwaith cenedlaethol cyson o ran cydnabyddiaeth i gynghorwyr. Bu'r Cyngor yn ystyried newidiadau ar gyfer 2018/19 yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2018. Roedd copi o'r Cynllun Lwfansau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer 2018/19 oedd wedi ei ddiwygio ar gyfer ei weithredu ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/19 ynghlwm wrth yr adroddiad i'w ystyried.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys diwygiadau ychwanegol er mwyn adlewyrchu argymhellion Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn ystod ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Chwefror a 20 Ebrill 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 Diwygio Rhan 4.1 o'r Cyfansoddiad i egluro bod angen cynigydd ac eilydd ar gyfer Rhybuddion o Gynnig a chaniatáu i Rybuddion o Gynnig gael eu cyflwyno'n electronig. (RhGC 12.1);**

**12.2 Mabwysiadu'r Cynllun Cyflogau a Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2018/19 (Rhan 6.1) yn amodol ar gynnwys y canlynol:-**

**a) bod Cadeirydd y Cyngor, Arweinydd a Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol (Adran 4.5 - Dyletswyddau Cymeradwy);**

**b) bod Cynghorydd yn mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau y mae'r Cynghorydd wedi'i benodi neu wedi'i enwebu'n ffurfiol gan y Cyngor i'w mynychu mewn rôl Hyrwyddwr neu Lysgennad e.e. Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, Llysgennad Anabledd ac ati (Adran 4.5 – Dyletswyddau Cymeradwy);**

**c) Disgrifiad o rôl Llysgennad/Hyrwyddwr (Atodiad D);**

**12.3 Cymeradwyo unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad o ran aelodaeth a wnaed yn gynharach yn y cyfarfod;**

**12.4 bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw fân newidiadau, cywiro gwallau teipio neu wallau drafftio a sicrhau bod yr holl groesgyfeiriadau yn y Cyfansoddiad yn gywir ac y rhoddir gwybod am y rhain i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad pan fydd angen;**

**12.5 yn amodol ar 12.1 – 12.4 uchod, bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei fabwysiadu ar gyfer 2018/19.**

## 13. AELODAETH PANELAU YMGYNGHOROL Y CYNGOR

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

13.1 nodi bod y Grŵp y Blaid Lafur wedi enwebu'r Cynghorydd Deryk Cundy i olynu'r Cynghorydd Jeff Edmunds ar Grŵp Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad;

13.2 nodi bod Grŵp y Blaid Lafur wedi enwebu'r Cynghorydd Rob James i olynu'r Cynghorydd Jeff Edmunds ar y Panel Ymgynghorol Ynghylch y Polisi Tâl .

________________________ __________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**